
Plannu a Rhannu

# Camau syml i dyfu llysiau

## 1. Dewiswch gnwd


Mae llond gwlad o hadau llysiau gwahanol i ddewis ohonynt a gall fod yn anodd penderfynu beth i'w blannu! Dewiswch rywbeth yr hoffech ei fwyta neu rywbeth yr ydych wedi bod yn awyddus i'w dyfu ers sbel a gwirio pa mor dal fydd y planhigyn yn tyfu cyn i chi ei blannu. Gallech roi cynnig ar egin pyws, dail salad neu berlysiau.



## 2. Dewiswch botyn

Mae llwythi o bethau y gallwch eu hailgylchu i'w defnyddio fel potyn; does dim rhaid iddyn nhw gostio ffortiwn! Mae tiwbiau papur tŷ bach yn gwneud potiau gwych ar gyfer ffa, pys a moron a'r peth gorau am hynny yw na fydd rhaid i chi amharu ar y gwreiddiau pan fyddwch yn eu rhoi mewn potyn mwy neu yn y tir gan fod modd plannu'r cardfwrdd hefyd! Gallwch ddefnyddio bocsys wyau a madarch neu ailddefnyddio hen botiau planhigion.



## 3. Dewiswch le

Bydd angen golau a gwres ar eich hadau i dyfu felly dewiswch silff ffenestr sy'n cael yr haul. Os oes gennych ardal blannu y tu allan gallwch ddechrau egino rhai o'r hadau yn yr ardd neu hyd yn oed ar falconi neu garreg y drws.

